# CYNGOR CYMUNED BUAN

**Cofnodion cyfarfod y Cyngor dyddiedig 8 Gorffennaf 2021 gafodd ei gynnal drwy gyfrwng sustem ZOOM**

**Presennol:**

**Cynghorwyr**:
Hughie Williams – Cadeirydd
Rhys Jones – Is Gadeirydd
Wyn Davies
Gareth Roberts
Dafydd Ll Williams
Catherine Hughes
Philip Roberts
Nia Jones
Rhian Holt - clerc

1. **Ymddiheuriadau** – Cynghorwyr Einir Lewis a Tesni Wyn Jones

**2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

Cadarnhawyd cofnodion 10 Mehefin 2021 yn gywir gan y Cynghorydd Catherine Hughes ac eilwyd gan y Cynghorydd Wyn Davies.

**3. Ymatebion i ohebiaeth**

Derbyniwyd ymateb gan Iwan ap Trefor o'r Adran Drafnidiaeth/Traffig o Gyngor Gwynedd fel a ganlyn:

**Goryrru Drwy Bentref Rhydyclafdy**

Cyfeiriaf at eich ymholiad mewn perthynas â materion goryrru trwy bentref Rhydyclafdy.

Wrth gwrs mae hyn yn peri pryder mawr i ni fel Cyngor a hoffwn eich sicrhau ein bod yn deall y sefyllfa yn llwyr.

Hoffwn eich sicrhau y byddwn yn cynnal arolwg cyflymder yn yr ardal i ddeall pa fesurau sy'n ddigonol mewn ymdrech i arafu traffig.

Byddwn yn cysylltu â chi maes o law gyda diweddariad.

**4. <u>Materion Ariannol</u>**

Derbyniwyd cysoniad y banc am y cyfnod 4 Mehefin 2021 i 3 Gorffennaf 2021 yn gywir yn y swm o £3561.93.

Bydd y sieciau isod yn cael eu harwyddo gan ddau Gynghorydd yn ystod y dyddiau nesaf.

| | | |
|---|---|---|
| Rhian Holt + stamp £1.53 i Awdit Cymru | £113.32 | Siec rhif 200626 |
| Cyllid a Thollau ein Mawrhydi | £28.00 | Siec rhif 200627 |
| Ashley Hughes – inc printer | £67.18 | Siec rhif 200628 |
| Bacstal – chwarter i 31/12/2020 | £245.40 | Siec rhif 200629 |

Derbyniwyd derbyneb gan Macmillan Cancer Care.

**5. Materion Cynllunio**
Roedd tri cais cynllunio wedi ei dderbyn yn electronig a cafwyd y sylwadau canlynol:

C21/0573/33/LL – Nant, Boduan – Lleoli 5 pod pren ar gyfer gwersylla tymhorol, codi uned gawod / toiledau, gosod gwaith trin carthion domestig a gwaith tirlunio - Dim gwrthwynebiad

C21/0628/33/LL – Tyddyn Cae, Boduan – Estyniad i sied amaethyddol bresennol i greu corridor - Dim gwrthwynebiad

21/0645/33/LL – Bodfel Hall, Boduan – Newid defnydd tir amaethyddol i barc carafanau teithiol arfaethedig (40rh llain) gan gynnwys bloc amwynderau, trac mynediad a mynedfa - Dim gwrthwynebiad, ond sylwadau ynglŷn â'r fynedfa, ydi yn saff i dynnu i mewn ac allan hefo amryw o garafanau i’r lôn fawr?

**6. Datgan Diddordeb**
Doedd neb yn datgan diddordeb.

**7. <u>Materion er Gwybodaeth</u>**
Mae pob dogfen yn cael ei yrru yn electronig i’r Cynghorwyr drwy e bost.

**8**. **<u>Unrhyw fater arall</u>**

**Defibrillator**
Nid oedd pris ychwanegol wedi ei dderbyn i osod y peiriant defribrillator tu allan i Gapel Ceidio, penderfynwyd ceisio cael pris yn y dyfodol agos.

**Cyngor Cymuned Llandegai**
Derbyniwyd ebost gan glerc Cyngor Cymuned Llandegai a chopi o lythyr at Gyngor Gwynedd yn rhoi eu pryderon ynglŷn â diffyg ymateb a chyfathrebu Cyngor Gwynedd. Roedd yr ebost fel a ganlyn:

**DIFFYG YMATEB A CHYFATHREBU CYNGOR GWYNEDD** *Mae aelodau Cyngor Cymuned Llandygai yn awyddus iawn i drefnu cyfarfod gyda Mr Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd i drafod ein pryderon ynglyn a'r uchod. Byddem yn ddiolchgar pe bai'ch cyngor yn ystyried cynnwys y llythyr atodedig yn eu cyfarfod nesaf.*

Trafodwyd hyn yn y cyfarfod a gofynwyd i'r clarc am sylwadau.  Datganodd y clarc bod y gwasanaeth rydym yn ei gael gan swyddogion Ardal Dwyfor, yn enwedig yr Adran Drafnidiaeth a'r Amgylchedd yn Glandon yn dderbyniol iawn.
Gofynwyd i'r clarc ymateb i'r ebost yn datgan ein sylwadau.

**Materion Ffyrdd**
Derbyniwyd cwynion yn y cyfarfod fel a ganlyn:

**Goryrru yn Rhydyclafdy**
Bydd angen dal i gwyno am y goryrru drwg drwy pentref Rhydyclafdy, llawer o blant bach allan yn chwarae. Gofynwyd i'r clarc drefnu gwneud hyn.

**Torri gwellt lonydd**
Mae amryw yn cydweld bod gwaith bler a sal iawn wedi ei wneud ar y lonydd lleol flwyddyn yma. Gofynwyd i'r clarc roi cwyn i mewn i'r adran drafnidiaeth a hefyd holi os oes toriad arall cyn y Gaeaf.

**Glanrhyd Ceidio**
Mae ochrau y lôn yn disgyn ar y chwith cyn y bont am Dinas.

**Botacho Ddu**
Mae polyn trydan lawr lôn o Bryncynan ochr cae Botacho Ddu ar y chwith sydd gyda gordyfiant o'i gwmpas. Mae ar y droead ac yn creu methiant gweledig clir.

Gofynwyd i'r clarc yrru llythyr i'r Adran Drafnidiaeth am y cwbl.

Ni fydd cyfarfod yn ystod mis Awst, mwynhewch eich seibiant.

Daeth y cyfarfod i ben am 08:00 y.h.
Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 9 Medi 2021 drwy gyfrwng **ZOOM**.